

Correspondence File 1

Place Plan Meeting
24th March 2022

Abergele Profile

General Information

Electoral Ward: Abergele Pensarn

Constituency: Clwyd West

County: Conwy

Population information:

<https://www.conwy.gov.uk/cy/Council/Statistics-and-research/Assets/documents-ward-profiles/Abergele-Pensarn-ward-profile-December-2020.pdf>

Early Years Provision

Cymraeg i Blant Conwy (Welsh for Kids Conwy)

Before Christmas, the Welsh for Kids officer visited the health visitor group at the Dinorben Centre, Abergele on Thursday afternoon. This session was organised by the health team and they invited the CiB officer to come along to offer a few baby yoga and story and song sessions. These sessions were not advertised on their Facebook page.

Around 5 families attend these sessions.

I'm not aware that these sessions have continued in the new year - I haven't had any confirmation.

A Cymraeg i Blant group is held in Abergele. This group started in the new year and is being advertised.

Story and Song session / Baby Yoga - Thursdays at Dinorben Centre.

Ti a fi Abergele

Cylch Ti a Fi Abergele meet every Thursday morning from 9:00 - 11:00y.b during school term at Dinorben Centre.

The aim of Cylch Ti a Fi is to give an opportunity for parents/ guardians/ babysitters to meet regularly and to enjoy playing with their children whilst socialising with other parents.

Cylch Ti a Fi offers and provides activities that help develop children from birth up to school age. It's a great opportunity for parents/ guardians to share their experiences and socialise in a friendly and Welsh atmosphere.

Cylch Meithrin Abergele

Canolfan Morfa.

Capacity for 52 children at the same time.

Cylch Meithrin Mwy provides education and child care through the medium of Welsh for children between 2-4.

Cylch Meithrin Abergele is currently full and they are looking for money to buy a new cabin so that more children in the area can receive Welsh medium education and care.

Primary Education

Ysgol Glan Morfa

<http://ysgolglanmorfa.org/index.html>

Welsh medium education

Pupils aged 3 -11

Number of pupils: 253 (Capacity: 260)

Ysgol Glan Gele

Mostly English speaking

Pupils 3 -11

Number of pupils: 240 (Capacity: 242)

Ysgol Iau Sant Elfod

Mostly English speaking

Pupils 7- 11

Number of pupils: 293 (Capacity: 300)

Secondary Schools

Ysgol Y Creuddyn

There is no Welsh medium secondary school in Abergele, the closest within the county is Ysgol Creuddyn.

Ysgol Glan Clwyd

Some from Abergele attend secondary schools outside the county - Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy, Denbighshire.

Ysgol Emrys ap Iwan

Further Education

Coleg Llandrillo (Abergele)

Grŵp Llandrillo Menai have a site in Abergele. This is the smallest site by Coleg Llandrillo and most of the provision is part-time - mostly professional courses. They have around 3- 4 full time courses, some with entry to higher education. Not much of the provision at Abergele is bilingual or Welsh, but full time learners have access to seren iaith (similar to Siarter iaith at schools) and to all resources that are part of it.

They have a Coleg Cymraeg Cenedlaethol Branch Officer that only works with Coleg Llandrillo (Sara Davies). Sara works mostly with the full time learners at Rhos and Rhyl sites so hasn't visited the Abergele site as often, but all messages from the branch are sent to all learners even those who are studying at Abergele including information regarding promoting the Welsh language.

Here's Grŵp Llandrillo 2019-20 annual Welsh Language Standards report:

<https://www.gllm.ac.uk/content/files/Adroddiad-Blynyddol-Safonau-Iaith-Gymraeg-2019-20.pdf>

Activities / Events at Abergele

Gŵyl Hwyl Abergele

A day full of various activities, organised by Menter Iaith Conwy and Urdd Conwy for primary school children including football, golf, solving problems, dodgeball, crafts, fun games and more.

Two days were organised at Ysgol Glan Morfa during Summer 2021 with a total of 22 families attending.

Feedback forms were sent out to the families who attended these days and out of the 6 families who responded all of them noted that their children enjoyed the event and would like to see similar events being held in the future for their children.

Half of those who responded thought that there aren't enough Welsh/ bilingual events being held in the area.

Playful Parents

Play sessions for children between 0-5 years old. Free for families.

FFIT Conwy

Parc Gele, Abergele

Thursday, 11.15 - 12.15pm

Youth Clubs

There's a good attendance of Welsh speakers at the youth clubs in Abergele. Two of the youth workers are fluent Welsh speakers. As a service they've reached the short list for 'Gwobr y Gymraeg mewn Gwaith Ieuenctid' (Welsh Language prize in Youth Work) and young people of Abergele and Pensarn have shared their opinion with the panel about the importance of speaking the Welsh language socially outside school / home. Their response/ comments were positive and it was clear to see that they really appreciated the club and the ability to speak their preferred language.

They've also held an online course to help young people to learn more about the language and Welsh traditions. 12 young people completed the course and received an 'Agored Cymru' certificate. Some of these young people lived within the Abergele/ Pensarn and Bae Cinmel area and the group included a mixture of young people who weren't Welsh speakers/ learning Welsh and those who were fluent Welsh speakers. This course also helped to promote the Welsh language.

Canolfan Dinorben

Support Centre for families (groups, information and advice, one to one support, bringing in other expert services such as Domestic Abuse, Welfare Rights, Young Carers)

They operate bilingually with the emphasis on the English language.

Some of the staff who work at the Centre can speak Welsh. The local Ti a Fi operates at the centre and they have a good relationship with local Welsh schools Ysgol Glan Morfa, Ysgol Creuddyn and Glan Clwyd to ensure that local Welsh speaking families receive the support they need.

Dysgu Cymraeg (Learn Welsh)

Due to Covid-19, Welsh learning lessons moved online. There are no face to face lessons at the moment and so no lessons are being held in Abergele.

Llyfrgell Abergele

- Story and Rhyme Time for children under 5. (Monday, 10am) These sessions are bilingual but due to covid, there are limited numbers. Only 5 families can attend.
- Before Covid-19, they held a Clebran Cymraeg session - an informal chat session for Welsh learners on the first Thursday of each month during the afternoon but these sessions haven't restarted yet.

Sports

Abergele Golf Club

(<https://www.abergelegolfclub.co.uk/>)

North Wales Golf Club overlooking Gwrych Castle and the surrounding area. Members and visitors alike come to us to play golf and take in some exercise.

Operates through the medium of English only

Their answer for the question on what would help them use more of the Welsh language was: 'Help with translations for signs and support on how to implement the Welsh language into our environment'.

The Helo Blod Officer has been in touch, but she hasn't had any response.

Also worth noting that they have two function rooms that are available to hire for events.

Contact email for enquiring is: reception@abergelegolfclub.co.uk.

Abergele Rugby Club

(<https://abergele.rfc.wales/>)

Youth teams, women's team and men's team.

Operates bilingually with an emphasis on the English language.

They use some Welsh language on their Twitter account.

The Chairman of the Club noted that they were very proud of the Welsh language and very supportive of encouraging the use of Welsh within the club.

They are also the main tenants of the Sports pavilion at Pentre Mawr park.

Clwb Pêl-rwyd Abergele

Sports Club for adults and children aged 7 years and over.

Operates in English only.

Resources would be very welcome. The committee is predominantly English speakers and although they use Welsh in letters/emails, it is in a very primitive manner. They would love to offer their social media posts, communications and handouts in Welsh as well as English.

Some of their coaches could use instructions bilingually, however not all would feel comfortable in doing so. They are also not aware of the resources and support available from our Governing Body Wales Netball.

Abergele Football Club

No contact with the club

Doesn't look like they use any Welsh on their social media platforms.

Abergele Cricket Club Clwb Criced Abergele

A message has been sent through their website but I haven't had any response.

Abergele Leisure Centre

Have sent an email enquiring about Welsh language provision at the Centre regarding activities and the number of staff who can speak Welsh but haven't had any response.

Canolfan Dewi Sant

A multi-purpose centre used by the community

A full timetable of various activities.

No Welsh medium / bilingual activities are being held there at the moment.

The manager was very keen to use the Helo Blod translation service- hopefully getting bilingual signs would be the first step to increase the use of Welsh language at the Centre.

The Hoptimist

An informal chat group meet at 'The Hoptimist' every Thursday at 2pm.

A place for Welsh learners to learn and practice their Welsh in a friendly atmosphere.

Merched y Wawr Abergele

Contact: Mrs Mona Morris

40 members this year

They officially meet on the third Monday evening of each month (sometimes meet in the afternoon). They restarted meeting back in September 2021.

Meeting Place: Capel Mynydd Seion Centre

Cymdeithas y Chwirydd

Contact: Mrs Nanlys Roberts

Meet every 2 weeks on Wednesday

Meeting Place: Capel Mynydd Seion Centre

All members also used to be members of Capel Mynydd Seion.

Cymdeithas Edward Llwyd

Cymdeithas Emrys ap Iwan

Haven't restarted after Covid-19.

Usually met up every two weeks on a Friday.

Cylch y Brodyr

Contact: John Eric Roberts

Meet every two weeks Tuesday morning at 10:30am.

Around 10 members. All members also used to be members of Capel Mynydd Seion.

Panad a Sgwrs

Capel Mynydd Seion Centre.

Hasn't restarted yet

Held on a Friday.

Clwb Gweu (Knitting Club)

Contact: Mrs Meirwen Huws

Meet once a month

Capel Mynydd Seion

- It looks like most of the Welsh Social groups in Abergele meet at Capel Mynydd Seion vestry which is now a community centre. It has a capacity of 60 people.
- Before Covid, it was a busy centre with something being held there nearly every day.
- Contact: John Eric Roberts.

Eglwys Mihangel Sant (St. Michael's)

- A Welsh language service is held there on the 2nd and 4th Sunday of every month at 9.15am.
- At most there are between 15- 18 in attendance.

Old People's Club - U3A Abergele (<https://u3asites.org.uk/abergele/welcome>)

Over 200 members. Appeal to older people.

Various activities

From what I can see, these activities are not held through the medium of Welsh/ bilingual.

An email has been sent to them to complete the questionnaire but have not received any response.

Abergele Community Action Ltd

They deliver services to the community: Abergele District Foodbank, Abergele Community Money Advice and Abergele Youth Shed

As an answer for what would help them increase their use of the Welsh language they noted: "Translation services for marketing materials"

Helo Blod Officer has been in touch with them.

Abergele Busniesses

- Helo Blod Officer has been to around 80-90% of shops and businesses on the high street and nearby streets. (25.11.21)- Around 40 businesses (other businesses were either closed or busy when passing them).

- Mostly positive response by the businesses - everyone seemed happy to receive resources such as a 'croeso' sign and a 'ar agor/ cau' sign. The officer gave 6 Welsh learner badge/ lanyard and 4 Welsh badge/ lanyard. 2 owners spoke Welsh- one was an estate agent 'McCoubrey Cooke' and the other was a hairdresser 'Hair a Holic'.

- Some businesses showed an interest in the translation service and a Helo Blod business card was left with every business. Helo Blod Officer was also going to send some follow-up emails.

- No response regarding bilingual shop signs but didn't really have the opportunity to discuss this in detail so need to discuss further.

Consulting with the Community

Questionnaires were used to consult with the local community to get a better understanding of the situation regarding the use of the Welsh language in Abergele.

One was shared with the schools in the area and a more general one was shared for the local community.

We received **58** responses for the general questionnaire.

We received **112** responses from primary school children - these were pupils from Ysgol Glan Morfa. Their age varied between 7-11.

Emails were sent to the other schools as well but no responses.

We received **19** responses from secondary school pupils- all of these were pupils at Ysgol y Creuddyn. Their age varied between 12-18.

Emails were sent to the other schools as well but no responses.

Analysis of the questionnaires:

From the responses it seems that there are only a few opportunities for people to use the Welsh language locally. In response to the question, what would help you to use more Welsh, here are the answers given from fluent Welsh speakers and once who could speak Welsh but who had no confidence:

- digwyddiadau yn yr ardal (*events in the area*)
- Gwybod fod pobol eraill yn siopa ayyb yn ei ddefnyddio.
(*knowing that others shopping use it as well*)
- Dwi'n siarad ac yn defnyddio'r Gymraeg yn aml iawn. Ond buasai sefydlu adran neu aelwyd yr Urdd yn y dre o fudd i blant a phobl ifanc Abergele. Does dim llawer o gyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol. (*I use Welsh regularly. But an Aelwyd yr Urdd in the town would be beneficial for children and young people of Abergele. There are only a few opportunity for children and young people to use Welsh outside school*)
- Clybiau i rieni (*clubs for parents*)
- Os bysa fwy o bobl yn defnyddio'r iaith (*If more people used the language*)
- Yn gwybod pa iaith mae pobl yn siarad heb gofyn. Sa hynny yn grêt. Mae'n anodd dechrau bob sgwrs yng Nghymraeg (*knowing what language people speak without asking. That would be great. It's hard to start every conversation in Welsh*)
- Rhagor o wybodaeth am fagu fy mlant yn y Gymraeg yn yr ardal e.e. Cylchoedd Meithrin unrhyw gweithgareddau/clybiau sy'n cael eu gynnal yn y Gymraeg yn yr ardal. (*More information about bringing up children through the medium of Welsh .e.g. Cylchoedd Meithrin and any Welsh language activities/ clubs in the area*)
- Mwy o gyfleoedd yn lleol - adnabod siaradwyr Cymraeg (*More opportunities locally - know other Welsh speakers*)
- Staff siopau lleol yn siarad Cymraeg (*Staff at the local shops speaking Welsh*)
- Annog y ddi Cymraeg i fentro dysgu'r iaith (*Encourage non-Welsh speakers to learn Welsh*)
- Mwy o bobl yn yr ardal i siarad Cymraeg efo! (*More people in the area to speak Welsh with*)
- Fwy o weithwyr Cymraeg yn y siopau/ busnesau. (*More Welsh speaking staff in the shops / businesses*)
- Mwy o arwyddion Cymraeg, neu staff siopau yn gwisgo bathodyn "siarad Cymraeg" (*More Welsh language signs, or more staff wearing 'Cymraeg badges'*)
- Gweithgareddau neu cymdeithasau Cymraeg/dwyieithog (*Welsh/ bilingual activities / societies*)

- Ychydig o gyfle sy wrth weithio gartref a dim ond mentro allan pan yn angenrheidiol. Angen mwy o weithgareddau hamdden Cymraeg I blant a phobl ifanc - pêl droed, nofio, karate, dawnsio, gymnasteg, drama - mae popeth bron yn Abergele yn Saesneg (os yn cynnig dwyieithog mae tuedd I droi i'r Saesneg). *(There are only a few opportunities to speak Welsh working from home and only go out when essential. Need more Welsh language leisure activities for children and young people - football, karate, dancing, gymnastics, drama - nearly everything in Abergele is English (if bilingual, they tend to turn to English))*
- 'Dwi'n defnyddio'r iaith pan gallai yn enwedig hefo teulu a ffrindiau *(I use the Welsh language when I can with family and friends)*
- Practice with someone who isn't judgemental

These responses clearly show that there is a local demand for more Welsh language leisure and social activities in the area.

Here are the answers by non- Welsh speakers and learners:

- Social Groups to practice speaking
- More Welsh speakers around me
- A safe place to practice
- Free lessons for beginners but not online
- Groups specifically for learners
- Free online flexible lessons
- Ability to practice in a non pressured environment
- More free courses for working adults
- More people doing the same
- Hoffwn i sesiwnau coffi a sgwrs yn yr ardal a gyfleoedd i siarad efo pobl iaith cyntaf. *(I would like coffee and chat session in the area and opportunities to speak with fluent Welsh speakers)*
- Access to and time for a free course
- Hearing and seeing it spoken more where I live
- Less correction of pronunciation by Welsh first language
- Night school, I can go and learn Spanish but there are no local evening classes at the Abergele college for Welsh.
- Parent learner classes run by school to learn what the kids are taught
- More opportunities to practise
- Shops where I know I can talk welsh and they would help
- A relaxed atmosphere in which to practice

They were also asked for any further comments, here are the comments that were noted:

- Mae Angen helpu dysgwyr (Bob oedran) ymuno â gweithgareddau Cymraeg ac mae angen yr arbenigedd I sicrhau eu bod nhw'n gallu cymryd rhan yn llawn heb I bawb troi i'r Saesneg a heb yr angen I gynnal sesiynau i ddysgwyr ar wahân. *(We need to help learners (all ages) to join Welsh activities and need the expertise to ensure that they can take part without everyone having to turn to English and without the need to hold sessions for learners on their own)*
- Efallai bydda mentor iaith yn barod I greu tudalen fb ar gyfer Abergele. Ydi'r sgiliau ar gael? Diolch *(Menter iaith could maybe create a fb for Abergele. Are the skills available?)*

- Sialens fawr oherwydd polisi Cyngor Conwy i ganiatau llawer o dai ychwanegol a dim ystrwthyr ar eu cyfer a colli cymunedau cynhenid. Ni fydd un tymor yn ddigonol, fydd angen buddsoddi tros rhai blynnyddoedd. *(A great challenge due to Conwy Council's policy of letting many additional houses and no structure for them and losing native communities. One season won't be enough, an investment over many years is needed)*
- Night school type lessons could be the way forward to promoting the Welsh Language. Abergele is a constantly growing town and with incomers there is a risk to the Welsh language. When I was young night school and evening classes were very popular and were both a learning and social event.
- anything that would encourage young people to learn welsh in towns
- An easy sheet explaining Yes & No ques and correct replies for businesses would be helpful
- It would be good to have monthly events in abergele for community cohesion
- Adran/aelwyd yr urdd wythnosol. Pan yn blentyn mi oedd 'na aelwyd gryf iawn yn y dre a chefais gymaint o brofiadau drwy gyfrwng y Gymraeg wrth gymdeithasu. Mi fuaswn i'n dymuno i fy mhentyn i dderbyn yr un profiadau. *(Weekly Adran/ Aelwyd. As a child there was a strong Aelwyd in the town and I had so many opportunities through the medium of Welsh by socialising. I'd like to see my own child receive the same opportunities.*
- Mae angen mwy o ddigwyddiadau a gweithgareddau Cymraeg yn yr ardal. *(More Welsh language events and activities in the area)*
- To be able to use Welsh on a daily basis - in shops etc

In response to the question which age category would you like to see more Welsh/ bilingual events in the area the most popular answer was for the **whole family** (35 individuals). Then 31 individuals answered **learners and adults**. 23 answered **11-18 year olds** and 15 wanted to see events for **19-25 year olds**.

They were also asked what type of activities/ events they would like to see held in the area. Responses can be seen below:

Baby and parent session	12
Family Fun Day	28
Arts and Craft	22
Musical Workshop	14
Sports	21
Outdoor Activities	29
Music Festivals	27
Comedy Evenings	25
Social Adult Evenings	29
Shows and Performance	25

Feedback from Primary and Secondary School Pupils

Many pupils at Ysgol Glan Morfa noted that they took part in Urdd activities during school time and others noted that they played rugby and football.

As for activities after school time, here are the answers that some of the pupils gave:

- Rugby
- After school club
- Football
- Golf
- Boxing
- Swimming
- Gymnastics
- Brownies
- Acro
- Netball
- Karate
- Piano lessons
- Singing
- Dancing .e.g. Balet, tap, morris dancing
- Taekwondo
- Cricket
- Drama
- Kickboxing
- Sea Cadets

Although some noted that they took part in these activities through the medium of Welsh, most of these activities were through the medium of English. It seems that although the children take part in various activities after school, unfortunately only a few of these give the opportunity for the children to use their Welsh language outside school hours.

Here are the different activities the children would like to see being held locally:

youtube	67
Play games	49
Craft	61
Singing	34
Spend time with the family	45
Dancing	37
Visiting places	10
Create Vlogs	10
Acting	27
Music	13
Outdoor Activities	11
Solving Problems	13
Gardening	15
Sports	30

Watch a show/ performance	14
Video Games	49

Some also recommended the following:

- Jazz
- Drama
- Swimming
- Sewing
- Maths
- Science
- Gymnastics

As for secondary school pupils, the activities they took part in during school time were mostly sports related (rugby, football, netball, hockey). Others noted the school choir, drama and Maths club.

Outside school hours, pupils noted they took part in the following activities:

- Dancing
- Rugby
- Gardening Club
- Abergele Youth Shed
- Football
- Youth Service
- Swimming
- Karate
- Gymnastics
- Guides
- Theatre
- Welsh National Youth Opera
- Cricket
- Swimming

Following the same trend as the primary school children, most of these activities were through the medium of English and only a few gave an opportunity for them to use their Welsh language.

Here are the different activities the children would like to see being held locally:

Type of activity?	No.
youtube	19
Playing games	4
Art	4
Singing	5
Spend time with the family	7
Dancing	5

Visiting places	7
Creating vlogs	2
Acting	3
Music	5
Outdoor activities	5
Solving problems	5
Gardening	1
Sports	7
Watch a show / performance	7
Video games	10
Cooking	2

Proffil Abergele

Gwybodaeth Gefndirol

Ward Etholiadol: Abergele Pensarn

Etholaeth: Gorllewin Clwyd

Sir: Conwy

Nodweddion Poblogaeth:

<https://www.conwy.gov.uk/cy/Council/Statistics-and-research/Assets/documents-ward-profiles/Abergele-Pensarn-ward-profile-December-2020.pdf>

Darpariaeth Blynyddol Cynnar Cymraeg i Blant Conwy

Cyn y Nadolig y swyddog yn mynd i mewn i grŵp yr Ymwelydd Iechyd yng Nghanolfan Dinorben, Abergele ar brynhawn dydd Iau. Mae'r sesiwn yma wedi ei drefnu gan y tîm Iechyd a nhw sydd wedi estyn gwahoddiad i'r swyddog CiB i gynnig ychydig o loga Babi a Stori a Chân o fewn y grŵp felly nid yw rhain yn cael eu hysbysebu ar ein tudalennau Facebook.

Oddeutu 5 teulu'n mynychu'r sesiynau.

Nid oes sicrwydd y bydd y trefniant hwn yn parhau yn y flwyddyn newydd.

Mi fydd grŵp Cymraeg i Blant yn y flwyddyn newydd yn cael ei gynnal yn Abergele Sesiwn Stori a Chân / loga Babi - Dydd Iau yng Nghanolfan Dinorben.

Ti a fi Abergele

Mae Cylch Ti a Fi Abergele yn cyfarfod pob bore dydd Iau o 9:00 - 11:00y.b. yn ystod tymor yr ysgol yng Nghanolfan Dinorben.

Pwrpas y Cylch Ti a Fi yw rhoi cyfle i rieni neu warchodwyr gwrdd yn rheolaidd i fwynhau chwarae gyda'u plant a chymdeithasu dros baned!

Mae'r Cylch Ti a Fi yn cynnig gweithgareddau sy'n helpu datblygiad plant o enedigaeth hyd at oed ysgol. Mae'n gyfle gwyb i rieni/gwarchodwyr gwrdd i rannu profiadau a chymdeithasu mewn awyrgylch gyfeillgar a Chymreig.

Cylch Meithrin Abergele

Canolfan Morfa.

Capasiti ar gyfer 52 o blant ar un waith.

Mae Cylch Meithrin Mwy yn cynnig Addysg a Gofal Plant trwy gyfrwng y Gymraeg i blant oedran 2-4.

Mae Cylch Meithrin Abergele yn llawn ac yn chwilio am arian i brynu caban newydd i rhoi cyfle i fwy o blant o fewn yr ardal i dderbyn addysg a gofal Cymraeg.

Addysg Gynradd

Ysgol Glan Morfa

<http://ysgolglanmorfa.org/index.html>

Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg

Disgyblion 3 -11 oed

Nifer o ddisgyblion: 253 (Capasiti: 260)

Ysgol Glan Gele

Ysgol gynradd sy'n bennaf Saesneg ei hiaith

Disgyblion 3 -11 oed

Nifer o ddisgyblion: 240 (Capasiti: 242)

Ysgol Iau Sant Elfod

Ysgol gynradd sy'n bennaf Saesneg ei hiaith

Disgyblion 7- 11 oed

Nifer o ddisgyblion: 293 (Capasiti:300)

Addysg Uwchradd

Ysgol Y Creuddyn

Nid oes Ysgol Uwchradd cyfrwng Cymraeg yn Abergele ei hun, a'r ysgol agosaf o fewn y sir yw Ysgol Creuddyn.

Ysgol Glan Clwyd

Mae rhai o Abergele yn mynychu Ysgol Uwchradd tu allan i'r sir sef Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy, Sir Ddinbych.

Ysgol Emrys ap Iwan

Addysg Bellach

Coleg Llandrillo (Abergele)

Mae gan Grŵp Llandrillo Menai safle yn Abergele. Y safle lleiaf sydd gan Coleg Llandrillo gyda'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth yn rhan-amser - cyrsiau proffesiynol yn bennaf. Mae rhyw dri neu bedwar cwrs llawn-amser, rhai mynediad i addysg uwch. Does dim llawer o'r ddarpariaeth yn Abergele ar gael yn ddwyieithog na'n Gymraeg, ond mae'r dysgwyr llawn amser efo mynediad at y seren iaith (tebyg i'r siarter iaith yn yr ysgolion) ac at yr adnoddau sydd ynghlwm â hynny.

Mae gennym Swyddog Cangen Coleg Cymraeg Cenedlaethol sy'n gweithio'n benodol efo Coleg Llandrillo hefyd (Sara Davies). Mae ei gwaith hi wedi golygu bod y rhan fwyaf o'i hymdrechion gyda'n dysgwyr llawn amser ni ar safleoedd Rhos a Rhyl a felly'r swyddog heb fod yn ymweld â safle Abergele mor aml, ond mae negeseuon gan y gangen sy'n mynd allan i'r holl ddysgwyr yn cyrraedd ein dysgwyr ni yn Abergele hefyd gan gynnwys gwybodaeth berthnasol o ran hybu a hyrwyddo'r Gymraeg.

Dyma adroddiad Blynyddol safonau Iaith Gymraeg 2019-20 Grŵp Llandrillo Menai:

<https://www.gllm.ac.uk/content/files/Adroddiad-Blynyddol-Safonau-Iaith-Gymraeg-2019-20.pdf>

Gweithgareddau / Digwyddiadau yn yr Ardal

Gŵyl Hwyl Abergele

Diwrnod o weithgareddau amrywiol wedi'u trefnu ar y cyd gan Menter Iaith Conwy a Urdd Conwy i blant oedran cynradd yn cynnwys pêl-droed, golff, datrys problemau, dodgeball, crefftau, gemau hwyl a mwy.

Cynhaliwyd dau ddiwrnod dros haf 2021 gyda chyfanswm o 22 teulu yn mynychu'r diwrnodau.

Mewn ymateb i holiadur adborth yn dilyn y digwyddiad roedd y 6 teulu a ymatebodd yn dweud bod eu plant wedi mwynhau'r digwyddiad ac yn awyddus i ddigwyddiadau tebyg gael eu cynnal eto.

Roedd hanner o rhai wnaeth ymateb yn teimlo nad oedd digon o weithgareddau Cymraeg/dwyieithog yn yr ardal.

Rhieni Chwareus

Sesiynau chwarae i blant 0-5 oed. Am ddim i deuluoedd.

FFIT Conwy

Parc Gele, Abergele

Dydd Iau, 11.15 - 12.15pm

Clybiau Ieuenctid

Mae yna griw da yn mynychu'r clybiau ieuenctid sydd yn siarad yr iaith Cymraeg yma yn Abergele. Mae dwy o'r Gweithiwr Ieuenctid yn rhugl yn y Gymraeg. Maent fel gwasanaeth wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer y 'Gwobr y Gymraeg mewn Gwaith Ieuenctid' a phythefnos yn ôl rhannodd pobl ifanc o Abergele a Pensarn ei barn nhw hefo'r panel am bwysigrwydd gallu siarad yr iaith Gymraeg yn gymdeithasol tu allan i ddosbarth / cartref. Roedd eu hatebion yn hynod bositif ac roedd yn amlwg bod y bobl ifanc wir yn gwerthfawrogi'r clwb a'r gallu i siarad o fewn eu hiaith dewisiol. Rydym hefyd wedi rhedeg cwrs ar lein yn helpu pobl ifanc ddysgu mwy am yr iaith a thraddodiadau Cymru. Llwyddodd 12 person ifanc cwblhau'r cwrs ac ennill tystysgrif Agored Cymru. Roedd rhai o'r grŵp yn byw o fewn yr ardal Abergele / Pensarn a Bae Cinmel ac roedd y grŵp yn cynnwys cymysgedd o bobl ifanc nad oedd yn siarad Cymraeg / dysgu Cymraeg neu yn rhugl. Eto roedd y cwrs yma yn helpu hybu'r iaith Cymraeg.

Ganolfan Dinorben

Canolfan Cymorth i deuluoedd (grwpiau, gwybodaeth, cyngor, cymorth un i un, cydweithio gyda gwasanaethau eraill .e.e. Camdriniaeth ddomestig, hawliau lles, gofalwyr ifanc a.y.y.b). Gweithredu'n ddwyieithog ond gyda phwyslais ar y Saesneg.

Mae nifer da o'r staff sy'n gweithio yno yn medru yn y Gymraeg. Mae'r Ti a Fi lleol yn gweithredu o'r Ganolfan, ac mae ganddynt berthynas dda gyda'r ysgol Gymraeg leol Ysgol Glan Morfa, ac Ysgol Creuddyn a Glan Clwyd er mwyn sicrhau bod y teuluoedd lleol sy'n Gymry Cymraeg yn derbyn y gefnogaeth sydd ei angen.

Dysgu Cymraeg

O ganlyniad i Covid-19, mae sesiynau dysgu Cymraeg yn cael eu cynnal ar-lein, felly nid oes gwersi penodol yn cael eu cynnal ar hyn o bryd yn Abergele.

Llyfrgell Abergele

- Amser Stori a Rhigwm ar gyfer plant dan 5 oed (Dydd Llun, 10am). Sesiynau hyn yn cael eu cynnal yn ddwyieithog ond y niferoedd wedi'u cyfyngu i 5 teulu ar y funud oherwydd cyfyngiadau Covid-19.

- Cyn cyfnod Covid-19, roedd sesiwn Clebran Cymraeg i ddysgwyr pob p'nawn dydd lau cyntaf y mis ond nid yw'r sesiynau hyn wedi ail-ddechrau. Gan bod y dodrefn ddim yno bellach, nid yw'n edrych y bydd rhain yn dychwelyd yn y dyfodol agos.

Chwaraeon

Clwb Golf Abergele

(<https://www.abergelegolfclub.co.uk/>)

Aelodau ac ymwelwyr yn dod yno i chwarae golf - y rhai sy'n chwarae golf yno'n amrywio o blant i oedolion.

Ar y funud, dim ond yn y Saesneg maent yn gweithredu.

O ran y cymorth i alluogi iddyn nhw ddefnyddio'r Gymraeg maent yn nodi byddai cymorth gyda chyfieithu arwyddion a chymorth ar sut i gyflwyno fwy o'r Gymraeg yn y clwb.

Swyddog Helo Blod wedi bod mewn cysylltiad hefo nhw, ond yn anffodus nid ydi hi wedi cael unrhyw ymateb pellach.

Mae'n werth nodi hefyd bod ganddyn nhw ddwy ystafell mae nhw'n llogi ar gyfer digwyddiadau. Cyswllt ar gyfer gwneud ymholiadau ar gyfer llogi'r 'stafelloedd yw: reception@abergelegolfclub.co.uk.

Clwb Rygbi Abergele

(<https://abergele.rfc.wales/>)

Clybiau ieuencid, Tîm merched a thîm dynion ganddyn nhw.

Gweithredu'n ddwyieithog ond â phwyslais ar y Saesneg.

Maent yn defnyddio rhywfaint o Gymraeg ar eu cyfrif Twitter.

Nododd Cadeirydd y Clwb eu bod nhw yn falch iawn o'r Gymraeg ac yn gefnogol iawn o annog defnydd o'r Gymraeg o fewn y clwb.

Nhw hefyd yw'r prif denantiaid ar gyfer y pafiliwn chwaraeon ym mharc Pentre Mawr.

Clwb Pêl-rwyd Abergele

Clwb ar gyfer plant oedran 7 oed i fyny at oedolion.

Gweithredu yn y Saesneg yn bennaf.

Buasent yn croesawu derbyn adnoddau er mwyn gallu defnyddio mwy o Gymraeg. Mwyafrif o'r pwyllgor yn siaradwyr Cymraeg ond maent yn defnyddio ychydig iawn o Gymraeg mewn llythyrau/ e-byst. Buasen nhw'n hoffi gallu rhannu postiadau ar eu cyfryngau cymdeithasol, handouts yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gallai rhai o'u hyfforddwyr ddefnyddio cyfarwydiadau dwyieithog ond ni fyddai pob un yn teimlo'n gyfforddus i'w wneud.

Nid ydynt yn ymwybodol o unrhyw gefnogaeth/ adnoddau gan eu Corff Llywodraethu 'Wales Netball'.

Clwb pêl-droed Abergele

Heb gael unrhyw gyswllt gyda'r Clwb.

Nid ydynt yn ymddangos i fod yn defnyddio'r Gymraeg ar eu cyfryngau cymdeithasol.

Clwb Criced Abergele

Wedi gyrru neges drwy wefan y clwb ond heb gael ymateb.
Nid ydynt yn ymaddangos i fod yn defnyddio'r Gymraeg.

Canolfan Hamdden Abergele

Wedi gwneud ymholiadau ynghylch darpariaeth Gymraeg y Ganolfan o ran gweithgareddau a'r nifer o staff sy'n gallu'r Gymraeg ond heb glywed unrhyw beth yn nôl.

Canolfan Dewi Sant

Canolfan aml-bwrpas at ddefnydd y gymuned.
Amserlen llawn gweithgareddau amrywiol.
Ar hyn o bryd nid oes dim digwyddiadau cyfrwng Cymraeg / dwyieithog yn cael eu cynnal yno ond roedd y reolwaraig .
Canolfan Dewi Sant – rheolwr yn awyddus iawn i ddefnyddio'r gwasanaeth cyfieithu, gobeithio allai helpu hi i ddatblygu arwyddion dwyieithog fel cam cyntaf.

The Hoptimist

Mae grŵp sgwrsio syml yn cyfarfod yn 'The Hoptimist' bob dydd Mawrth am 2pm.
Grŵp anffurfiol iawn - dysgu ac ymarfer eu Cymraeg mewn awyrgylch hwyliog ac ysgafn.

Merched y Wawr Abergele

Cyswllt: Mrs Mona Morris
40 aelod eleni
Cyfarfod yn fisol yn swyddogol ar y trydydd nos Lun bob mis (weithiau'n cyfarfod yn y p'nawn). Wedi ail- gychwyn cyfarfod fis Medi ar ôl cyfyngiadau Covid-19
Man cyfarfod: Canolfan Capel Mynydd Seion

Cymdeithas y Chwiorydd

Cyswllt: Mrs Nanlys Roberts
Cyfarfod bob pythefnos ar ddydd Mercher
Cyfarfod yng Nghanolfan Capel Mynydd Seion.
Aelodau i gyd yn arfer bod yn aelodau o Gapel Mynydd Seion ond pawb ddim yn aelodau o'r capel bellach.

Cymdeithas Edward Llwyd

Cymdeithas Emrys ap Iwan

(ddim yn cyfarfod ar hyn o bryd oherwydd Covid-19.
Fel arfer yn cyfarfod bob yn ail nos Wener

Cylch y Brodyr

Cyswllt: John Eric Roberts
Cyfarfod bob pythefnos ar fore dydd Mawrth, 10:30am.
Oddeutu 10 aelod. Aelodau i gyd yn arfer bod yn aelodau o Gapel Mynydd Seion ond pawb ddim yn aelodau o'r capel bellach.

Panad a Sgwrs

Cynnal yng Nghanolfan Capel Mynydd Seion.

Heb ail-ddechrau nôl eto oherwydd cyfyngiadau Covid-19
Cynnal dydd Gwener

Clwb Gweu

Cyswllt: Mrs Meirwen Huws

Cyfarfod unwaith y mis.

Capel Mynydd Seion

- Cymdeithasau cyfrwng Cymraeg yn dueddol o gyfarfod yn festri'r capel sydd bellach yn ganolfan gymunedol. Y Ganolfan hefo capasiti o 60.
- Cyn Covid, roedd hi'n ganolfan brysur iawn hefo rhywbeth ymlaen yno bron bob dydd.
- Cyswllt ar gyfer y Festri ydi John Eric Roberts.

Eglwys Mihangel Sant (St. Michael's)

- Mae ganddyn nhw wasanaseth Cymraeg ar yr 2il a'r 4ydd dydd Sul o bob mis am 9.15am.
- Ar y mwyaf rhwng 15-18 yn mynychu.

Clwb yr Henoed - U3A Abergele (<https://u3asites.org.uk/abergele/welcome>)

Dros 200 o aelodau. Apelio at bobl oedran 50 +

Gweithgareddau amrywiol.

Ddim yn ymddangos bod rhain yn weithgareddau cyfrwng Cymraeg.

Wedi gyrru e-bost yn holi iddynt gwblhau holiadur ond heb gael ymateb.

Abergele Community Action Ltd

Maent yn cynnig gwasanaethau i'r gymuned yn Abergele .e.e. Banc Bwyd, Abergele Community Money Advice, Abergele Youth Shed.

Buasent yn ddiolchgar iawn o wasanaeth cyfieithu ar gyfer eu deunyddiau Marchnata.

Swyddog Helo Blod wedi bod mewn cyswllt gyda nhw.

Busnesau Abergele

- Swyddog Helo Blod wedi bod o amgylch oddeutu 80-90% o'r siopau / busnesau ar y stryd fawr a'r strydoedd cyfagos (25.11.12) - tua 40 busnes (y busnesau eraill unai ar gau neu'n brysur pan yn pasio).

- Ymateb ar y cyfan yn bositif h.y. pawb yn hapus i dderbyn y nwyddau croeso ac arwydd ar agor/ cau. Dosbarthwyd 6 bathodyn / lanyard Dysgwr a 4 Cymraeg. Mi oedd 2 berchennog yn siarad Cymraeg sef gwerthwr tai 'McCoubrey Cooke' a siop trin gwallt 'Hair a Holic'. Ambell i fusnes wedi dangos diddordeb yn y gwasanaeth cyfieithu a cherdyn busnes Helo Blod wedi cael eu gadael gyda phob un ond Swyddog Helo Blod am ddilyn ambell un gydag e-bost hefyd.

- Ni chafwyd ymateb o ran diddordeb mewn arwyddion siop dwyieithog ond angen holi ymhellach ynghylch hyn.

Ymgynghori â'r Gymuned

Lluniwyd holiaduron i ymgynghori gyda'r gymuned er mwyn cael syniad gwell o sefyllfa'r Gymraeg yng Abergele.

Rhannwyd un gyda ysgolion yr ardal i gael adborth gan blant a phobl ifanc yr ardal ac yna rhannwyd un cyffredinol ar gyfer y gymuned.

Cafwyd **58** o ymatebion i'r un cyffredinol.

Cafwyd **112** o ymatebion gan ddisgyblion cynradd- rhain yn ddisgyblion Ysgol Glan Morfa. Oedran y disgyblion yn amrywio o 7- 11 oed. Anfonwyd e-byst allan i ysgolion eraill yr ardal hefyd ond ni chafwyd ymateb.

Cafwyd **19** ymatebion gan ddisgyblion uwchradd- rhain yn ddisgyblion yn Ysgol y Creuddyn. Oedran yn amrywio o 12-18. Anfonwyd e-byst allan i ysgolion eraill yr ardal hefyd ond ni chafwyd ymateb.

Dadansoddiad o holiaduron i'r gymuned

Daw i'r amlwg mai ychydig iawn o gyfleoedd sydd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn lleol. Mewn ymateb i'r cwestiwn oedd yn holi beth a allai fod o gymorth i chi ddefnyddio mwy o Gymraeg dyma'r atebion a gafwyd gan siaradwyr rhugl a'r rhai sydd yn gallu ond heb hyder i wneud:

- digwyddiadau yn yr ardal
- Gwybod fod pobol eraill yn siopa ayyb yn ei ddefnyddio.
- Dwi'n siarad ac yn defnyddio'r Gymraeg yn aml iawn. Ond buasai sefydlu adran neu aelwyd yr Urdd yn y dre o fudd i blant a phobl ifanc Abergele. Does dim llawer o gyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol.
- Clybiau i rieni
- Os bysa fwy o bobl yn defnyddio'r iaith
- Yn gwybod pa iaith mae pobl yn siarad heb gofyn. Sa hynny yn grêt. Mae'n anodd dechrau bob sgwrs yng Nghymraeg
- Rhagor o wybodaeth am fagu fy mlant yn y Gymraeg yn yr ardal e.e. Cylchoedd Meithrin unrhyw gweithgareddau/clybiau sy'n cael eu gynnal yn y Gymraeg yn yr ardal.
- Mwy o gyfleoedd yn lleol - adnabod siaradwyr Cymraeg
- Staff siopau lleol yn siarad Cymraeg
- Annog y ddi Cymraeg i fentro dysgu'r iaith
- Mwy o bobl yn yr ardal I siarad Cymraeg efo!
- Fwy o weithwyr Cymraeg yn y siopau/ busnesau.
- Mwy o arwyddion Cymraeg, neu staff siopau yn gwisgo bathodyn "siarad Cymraeg"
- Gweithgareddau neu cymdeithasau Cymraeg/dwyieithog
- Ychydig o gyfle sy wrth weithio gartref a dim ond mentro allan pan yn angenrheidiol. Angen mwy o weithgareddau hamdden Cymraeg I blant a phobl ifanc - pêl droed, nofio, karate, dawnsio, gymnasteg, drama - mae popeth bron yn Abergele yn Saesneg (os yn cynnig dwyieithog mae tuedd I droi i'r Saesneg)'. Mae'r ymatebion hyn yn dangos yn glir bod y galw yno'n lleol i gynnal mwy o weithgareddau hamdden a chymdeithasol cyfrwng Cymraeg yn yr ardal.
- 'Dwi'n defnyddio'r iaith pan gallai yn enwedig hefo teulu a ffrindiau
- Practice with someone who isn't judgemental

Dyma'r atebion gan ddysgwyr a rhai sydd ddim yn siarad Cymraeg o gwbl:

- Social Groups to practice speaking
- More Welsh speakers around me
- A safe place to practice
- Free lessons for beginners but not online
- Groups specifically for learners
- Free online flexible lessons
- Ability to practice in a non pressured environment
- More free courses for working adults
- More people doing the same
- Hoffwn i sesiwnau coffi a sgwrs yn yr ardal a gyfleoedd i siarad efo pobl iaith cyntaf.
- Access to and time for a free course
- Hearing and seeing it spoken more where I live
- Less correction of pronunciation by Welsh first language
- Night school, I can go and learn Spanish but there is no local evening classes at the Abergele college for Welsh.
- Parent learner classes run by school to learn what the kids are taught
- More opportunities to practise
- Shops where I know I can talk Welsh and they would help
- A relaxed atmosphere in which to practice

Gofynnwyd hefyd am unrhyw sylwadau pellach, dyma'r hyn a nodwyd:

- Mae Angen helpu dysgwyr (Bob oedran) ymuno â gweithgareddau Cymraeg ac mae angen yr arbenigedd i sicrhau eu bod nhw'n gallu cymryd rhan yn llawn heb I bawb troi i'r Saesneg a heb yr angen I gynnal sesiynau i ddysgwyr ar wahân.
- Efallai byddai mentor iaith yn barod I greu tudalen fb ar gyfer Abergele. Ydi'r sgiliau ar gael? Diolch
- Sialens fawr oherwydd polisi Cyngor Conwy i ganiatau llawer o dai ychwanegol a dim ystrwythyr ar eu cyfer a colli cymunedau cynhenid. Ni fydd un tymor yn ddigonol, fydd angen buddsoddi tros rhai blynyddoedd.
- Night school type lessons could be the way forward to promoting the Welsh Language. Abergele is a constantly growing town and with incomers there is a risk to the Welsh language. When I was young night school and evening classes were very popular and were both a learning and social event.
- anything that would encourage young people to learn Welsh in towns
- An easy sheet explaining Yes & No ques and correct replies for businesses would be helpful
- It would be good to have monthly events in Abergele for community cohesion
- Adran/aelwyd yr urdd wythnosol. Pan yn blentyn mi oedd 'na aelwyd gryf iawn yn y dre a chefais gymaint o brofiadau drwy gyfrwng y Gymraeg wrth gymdeithasu. Mi fuaswn i'n dymuno i fy mhlentyn i dderbyn yr un profiadau.
- Mae angen mwy o ddigwyddiadau a gweithgareddau Cymraeg yn yr ardal.
- To be able to use Welsh on a daily basis - in shops etc

Mewn ymateb i gwestiwn pa gategori oedran yr hoffai chi weld mwy o ddigwyddiadau Cymraeg / dwyieithog yn yr ardal roedd y mwyafrif (35 o unigolion) yn nodi bod angen digwyddiadau ar gyfer y **teulu cyfan** ac yna 31 o unigolion yn credu bod angen

digwyddiadau ar gyfer **dysgwyr ac oedolion**. Roedd 23 eisiau gweld mwy o ddigwyddiadau i rai 11-18 oed ac yna 15 unigolyn eisiau gweld digwyddiadau i rai 19-25 oed.

Gofynnwyd hefyd y math o ddigwyddiadau yr hoffent weld yn cael eu cynnal yn yr ardal. Gwelir isod y canlyniadau:

Sesiynau rhieni a babi	12
Diwrnod hwyl i'r teulu	28
Celf a Chrefft	22
Gweithdai Cerddorol	14
Chwaraeon	21
Gweithgareddau Awyr Agored	29
Gŵyl Gerddoriaeth	27
Nosweithiau Comedi	25
Nodweithiau i Oedolion	29
Sioeau a Pherfformiadau	25

Ymatebion Disgyblion Cynradd ac Uwchradd

O ran ymatebion plant ysgol cynradd ysgol Glan Morfa nododd sawl un eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau'r Urdd yn ystod amser ysgol ac eraill wedi nodi eu bod yn chwarae rygbi a pêl-droed.

O ran gweithgareddau ar ôl ysgol, dyma'r atebion a roddwyd gan rai o'r disgyblion:

- Rygbi
- Clwb ar ôl ysgol
- Pêl-droed
- Golff
- Bocsio
- Nofio
- Gymnasteg
- Brownies
- Acro
- Pêl-rwyd
- Karate
- Gwersi Piano
- Canu
- Dawnsio .e.e. Balet, tap, morris dancing
- Acro
- Taekwando
- Criced
- Drama
- Cic Bocsio
- Sea Cadets

O'r atebion hyn, er bod sawl wedi nodi eu bod yn cymryd rhan y gweithgareddau hyn drwy gyfrwng y Gymraeg, roedd y mwyafrif o'r gweithgareddau hyn yn rhai drwy gyfrwng y Saesneg sy'n ymddangos er bod y plant yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau ar ôl ysgol yn anffodus ychydig iawn o'r gweithgareddau hyn sy'n rhoi'r cyfle i'r plant gael defnyddio'u Cymraeg tu allan i oriau ysgol.

Dyma'r math o weithgareddau yr hoffai'r plant weld yn cael eu cynnal yn lleol:

youtube	67
Chwarae Gemau	49
Celf	61
Canu	34
Treulio amser gyda teulu	45
Dawnsio	37
Ymweld â llefydd	10
Creu Flogiau	10
Actio	27
Cerddoriaeth	13
Gweithgareddau Awyr Agored	11
Gweithgareddau Datrys Problemau	13
Garddio	15
Chwaraeon	30
Gweld sioe neu ddrama	14
Gemau Fideo	49

Yn ogystal, cafwyd yr ymatebion ychwanegol hyn gan rai hefyd:

- Jazz
- Drama
- Nofio
- Gwnio
- Mathamateg
- Gwyddoniaeth
- Gymnasteg

O ran ymatebion disgyblion uwchradd, roedd y gweithgareddau roedd y disgyblion yn cymryd rhan ynddynt yn ystod oriau ysgol gan amlaf yn gysylltiedig â chwaraeon (rygbi, pêl-droed, pêl-rwyd a hoci). Nododd eraill hefyd eu bod yn cymryd rhan yn y côr, drama a chlwb Mathamateg.

Tu allan i oriau ysgol nododd y disgyblion eu bod yn cymryd rhan yn y gweithgareddau canlynol:

- Dawns
- Rygbi

- Clwb Garddio
- Abergele Youth Shed
- Pêl-droed
- Gwasanaeth Ieuenctid
- Nofio
- Karate
- Gymnasteg
- Guides
- Theatr
- Welsh National Youth Opera
- Criced
- Nofio

Yn yr un modd â'r disgyblion ysgolion cynradd, roedd mwyafrif o'r gweithgareddau hyn drwy gyfrwng y Saesneg ac ychydig yn unig oedd yn rhoi'r cyfle i'r pobl ifanc ddefnyddio'i Cymraeg.

Dyma'r math o weithgareddau yr hoffai'r plant weld yn cael eu cynnal yn lleol:

Pa fath o weithgareddau?	Nifer
Gwylio youtube	19
Chwarae Gemau	4
Celf	4
Canu	5
Treulio amser gyda teulu	7
Dawnsio	5
Ymweld â llefydd	7
Creu Flogiau	2
Actio	3
Cerddoriaeth	5
Gweithgareddau Awyr Agored	5
Gweithgareddau Datrys Probemau	5
Garddio	1
Chwaraeon	7
Gweld sioe neu ddrama	7
Gemau Fideo	10
Coginio	2